




# Adolygiad Ardal: Brynffordd, Licswm a Rhosesmor



# Cynnwys y Cyflwyniad

- Cefndir y prosiect
- Opsiynau a adolygir
- Llywio'r adolygiad Ardal
- Canfyddiadau Adolygiad Ardal Brynffordd, Licswm a Rhosesmor
- Crynodeb o'r canfyddiadau
- Camau nesaf

# Cefndir yr Adolygiad Ysgolion Ardal

## **Pam fod angen Moderneiddio Ysgolion?**

Mae angen cynnal y Rhaglen Moderneiddio Ysgolion er mwyn:

- Sicrhau fod y ddarpariaeth addysg o safon uchel ac yn gynaliadwy
- Adeiladau a chyfleusterau o well safon i ysgolion
- Darparu'r nifer gywir o leoedd mewn ysgolion, o'r math cywir yn y lleoliadau cywir
- Mynd i'r afael ag adeiladau ysgol anghynaliadwy a'r seilwaith ategol
- Cydnabod fod gwneud dim byd yn golygu cymarebau disgyblion athrawon uwch wrth i'r cyllid ostwng
- Sicrhau y gallwn gynyddu cyllid allanol drwy Raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif Llywodraeth Cymru

# Cefndir yr Adolygiad Ysgolion Ardal

Y prif 'sbardunau' neu feini prawf moderneiddio sy'n sylfaen i'r uchod yw:

- Gwelliant addysgol
- Arweinyddiaeth gadarn mewn ysgolion
- Adeiladau addas
- Lleoedd heb eu llenwi
- Adnoddau sy'n prinhau

Cyflwynwyd argymhellion ar gyfer cyfnod cyntaf y Cynllun Gweithredu Moderneiddio Ysgolion a chawsant eu cymeradwyo gan y Cabinet ym mis Mehefin 2015.

Comisiynwyd yr adolygiad gan fod yr ysgolion yn yr ardal hon yn cyrraedd nifer o drothwyon i'w hadolygu yn unol â strategaeth Moderneiddio Ysgolion y Cyngor.

# Opsiynau a adolygir

Yr opsiynau ar gyfer yr adolygiad ysgolion ardal fel y cytunwyd â llywodraethwyr y tair ysgol yw:

## **Opsiwn 1: Status Quo**

Mae pob ysgol yn aros yr un fath, yn cadw eu henwau, eu categori, eu cyllideb, eu llywodraethwyr, eu staff ac yn aros yn eu cymunedau.

## **Opsiwn 2: Un Ysgol Ardal ar Un Safle**

Ysgol ardal – un safle, byddai'r ysgol yn cadw ei chategori ond byddai'n cael enw, corff llywodraethu, pennaeth a chyllideb newydd a byddai'n aros yn un o'r cymunedau naill ai Brynffordd, Licswm neu Rhosesmor.

## **Opsiwn 3: Ysgolion Ardal ar ddau safle**

Byddai Ysgol Rhos Helyg, Rhosesmor yn aros yr un fath, yn cadw ei henw, ei chategori, ei chyllideb, ei llywodraethwyr, ei staff a byddai'n aros yn y gymuned. Byddai Ysgol Gynradd Brynffordd ac Ysgol Gynradd Licswm yn uno ar un safle. Byddai'r ysgol honno'n cadw ei chategori ond byddai ganddi enw, corff llywodraethu, pennaeth a chyllideb newydd a byddai'n aros yn un o'r cymunedau naill ai Brynffordd neu Licswm.

# Llywio'r Adolygiad Ardal

Llywio'r Opsiynau ar gyfer yr adolygiad ardal:

- Gweithdai plant a phobl ifanc yn y tair ysgol
- Aseidiadau Effaith:
  - Adeiladau
  - Cludiant
  - Y gymuned
  - Cydraddoldeb
  - Iaith
  - Crynodeb o'r Adroddiad
- Lleoedd Disgyblion

# Barn Plant a Phobl Ifanc

**Rhannwyd yr opsiynau â Chyngor yr Ysgol a gofynnwyd am eu barn a phleidlais**

Crynodeb o'r prif bwyntiau:

Opsiwn 1: Cadw'r Status Quo

- Ni fyddai angen i unrhyw un symud
- Llai o broblemau cludiant
- Ni fyddai unrhyw beth yn newid
- Rydych yn adnabod pawb

Opsiwn 2: Ysgol Ardal ar Un Safle

- Byddai'r ysgol yn rhy fawr
- Efallai y byddwn yn colli ffrindiau
- Ffyrdd prysur
- Gwisg ysgol newydd

Opsiwn 3: Cadw Ysgol Rhos Helyg ac un Ysgol Ardal ym Mrynffordd neu Licswm

- Gwahanol athrawon
- Ffyrdd prysur
- Mwy o ffrindiau / efallai y byddwn yn colli ffrindiau
- Gwisgoedd ysgol newydd

# Barn Plant a Phobl Ifanc



## Sgoriau pleidleisio'r Cyngorau Ysgol ar y cyd:

Arfarniad Adeiladau	1 Anghytuno'n Gryf / Gwaeth	2 Anghytuno / Ychydig yn Waeth	3 Ddim yn Anghytuno nac yn Cytuno / Dim Newid	4 Cytuno / Gwelliant Bach	5 Cytuno'n Gryf/ Gwelliant
Opsiw 1 (Status Quo)				✓	
Opsiw 2 (Ysgol Ardal ar 1 safle)		✓			
Opsiw 3 (Ysgol Ardal ar 2 safle)					✓



# Aseiad Effaith Adeiladau

Crynodeb o'r prif bwyntiau:

## **Opsiwn 1: Cynnal y Status Quo**

- Gellir gwella'r tri safle
- Mae Ysgol Gynradd Licswm yn fach o ran arwynebedd
- Mae gan Ysgol Rhos Helyg, Rhosesmor statws adeilad rhestredig Gradd 2

## **Opsiwn 2: Ysgol Ardal ar Un Safle**

- Mae lle ar safleoedd Ysgol Gynradd Brynffordd ac Ysgol Rhos Helyg, Rhosesmor ar gyfer ysgol ardal newydd
- Nid yw safle Ysgol Gynradd Licswm yn ddigon mawr ar gyfer ysgol ardal

## **Opsiwn 3: Cadw Ysgol Rhos Helyg ac un Ysgol Ardal ym Mrynffordd neu Licswm**

- Mae safle Ysgol Gynradd Brynffordd yn ddigon mawr ar gyfer ysgol ardal newydd
- Mae safle Ysgol Gynradd Licswm yn rhy fach ar gyfer ysgol ardal newydd

# Aseiad

## Effaith Adeiladau

Arfarniad Adeiladau	1 Anghytuno'n Gryf / Gwaeth	2 Anghytuno / Ychydig yn Waeth	3 Ddim yn Anghytuno nac yn Cytuno / Dim Newid	4 Cytuno / Gwelliant Bach	5 Cytuno'n Gryf/ Gwelliant
Opsiw 1 (Status Quo)		✓			
Opsiw 2 (Ysgol Ardal ar 1 safle)					✓
Opsiw 3 (Ysgol Ardal ar 2 safle)				✓	

# Lleoedd Disgyblion

Prif bwyntiau:

- Ym mis Ionawr 2016 ar gyfartaledd roedd 50 o leoedd llawn amser heb eu llenwi ar draws y 3 ysgol neu 12.12% (Gosododd Llywodraeth Cymru darged o ddim mwy na 10% o leoedd heb eu llenwi ym mhob ysgol)
- Erbyn 2020, rhagwelir y bydd nifer y lleoedd heb eu llenwi ar draws y 3 ysgol yn 9.27%

Opsiwn 1 Amcanestyniadau disgyblion – lleoedd heb eu llenwi erbyn 2020

- Amcanestyniad o 9.27%

Opsiwn 2 Amcanestyniadau o leoedd heb eu llenwi erbyn 2020

- Amcanestyniad o 6.29%

Opsiwn 3 Amcanestyniad o leoedd heb eu llenwi erbyn 2020

- Amcanestyniad o 12.15%



# Lleoedd Disgyblion

Asesiad o Leoedd Disgyblion	1 Anghytuno'n Gryf / Gwaeth	2 Anghytuno / Ychydig yn Waeth	3 Ddim yn Anghytuno nac yn Cytuno / Dim Newid	4 Cytuno / Gwelliant Bach	5 Cytuno'n Gryf/ Gwelliant
Opsiw 1 (Status Quo)			✓		
Opsiw 2 (Ysgol Ardal ar 1 safle)					✓
Opsiw 3 (Ysgol Ardal ar 2 safle)			✓		

# Asesiad Effaith Cludiant

Prif bwyntiau:

Mae'r Asesiad Effaith Cludiant yn edrych ar amseroedd siwrneiau, derbyniadau posibl a chostau cludo plant i'w hysgolion dewisedig.

Ni fyddai Opsiwn 1 yn newid y trefniadau presennol.

Mae opsiynau 2 a 3 yn debygol o gynyddu neu leihau amseroedd siwrneiau i rai disgyblion.

Disgwylir costau ychwanegol am gludo disgyblion os bydd Opsiynau 2 neu 3 yn cael eu bwrw ymlaen.

Ar gyfer opsiwn 1 (status quo), os bydd pob plentyn sy'n gymwys i gael cludiant am ddim yn defnyddio cludiant o'r cartref i'r ysgol, byddai'r costau cludiant yn uwch nag y byddent ar gyfer opsiynau 2 a 3.

# Aseiad Effaith Cludiant

Asesiad Cludiant	1 Anghytuno'n Gryf / Gwaeth	2 Anghytuno / Ychydig yn Waeth	3 Ddim yn Anghytuno nac yn Cytuno / Dim Newid	4 Cytuno / Gwelliant Bach	5 Cytuno'n Gryf/ Gwelliant
Opsiwn 1 (Status Quo)			✓		
Opsiwn 2 (Ysgol Ardal ar 1 safle)				✓	
Opsiwn 3 (Ysgol Ardal ar 2 safle)				✓	

# Aseiad Effaith Cymunedol

Prif bwyntiau:

Mae'r Aseiad Effaith Cymunedol yn archwilio sut mae pob ysgol yn defnyddio cyfleuster cymunedol neu sut mae'r ysgol yn cael ei defnyddio gan y gymuned ar gyfer clybiau a grwpiau amrywiol.

**Opsiwn 1** – Ni fyddai unrhyw effaith ar unrhyw un o'r cymunedau

**Opsiwn 2** – Byddai effaith bosibl ar bob un o'r tair cymuned yn dibynnu ar y safle a ddewisir.

**Opsiwn 3** – Byddai effaith bosibl ar ddwy o'r cymunedau, naill ai Brynffordd neu Licswm, yn dibynnu ar y safle a ddewisir.

Gellir cymryd camau i liniaru'r effaith ar y gymuned, gan gynnwys meithrin cysylltiadau ehangach rhwng y Pennaeth a'r Llywodraethwyr a gyda chymunedau i sicrhau fod y cymunedau'n dal i ffynnu.

# Aseiad Effaith Cymunedol

Aseiad Effaith Cymunedol	1 Anghytuno'n Gryf / Gwaeth	2 Anghytuno / Ychydig yn Waeth	3 Ddim yn Anghytuno nac yn Cytuno / Dim Newid	4 Cytuno / Gwelliant Bach	5 Cytuno'n Gryf/ Gwelliant
Opsiwn 1 (Status Quo)			✓		
Opsiwn 2 (Ysgol Ardal ar 1 safle)		✓			
Opsiwn 3 (Ysgol Ardal ar 2 safle)		✓			



# Aseiad Effaith Cydraddoldeb

Prif bwyntiau:

Mae'r Aseiad Effaith Cydraddoldeb wedi adolygu grwpiau nodweddion gwarchoddedig

Mae'n ystyried canlyniadau positif a negyddol unrhyw gynnig.

Mae'r Aseiad Effaith Cydraddoldeb yn nodi effeithiau posibl i ddisgyblion, rhieni/gofalwyr, athrawon a staff addysgu os bydd yr opsiwn ysgol ardal yn cael ei weithredu.

Bydd yr Awdurdod Lleol yn darparu'r cymorth angenrheidiol i sicrhau fod unrhyw effeithiau'n cael eu lleihau.

Ni ddylai unrhyw effeithiau gweddilliol gael eu gweld ar ôl gweithredu'r opsiynau ar gyfer yr ardal

# Asesiad Effaith Cydraddoldeb

Asesiad Cydraddoldeb	1 Anghytuno'n Gryf / Gwaeth	2 Anghytuno / Ychydig yn Waeth	3 Ddim yn Anghytuno nac yn Cytuno / Dim Newid	4 Cytuno / Gwelliant Bach	5 Cytuno'n Gryf/ Gwelliant
Opsiwn 1 (Status Quo)			✓		
Opsiwn 2 (Ysgol Ardal ar 1 safle)			✓		
Opsiwn 3 (Ysgol Ardal ar 2 safle)			✓		

# Aseiad Effaith Iaith

Crynodeb o'r prif bwyntiau:

- Ysgolion cymunedol cyfrwng Saesneg yw'r holl ysgolion dan sylw yn yr adolygiad, felly ni fydd unrhyw newid i'r iaith a ddefnyddir yn yr ystafell ddosbarth nac ar y buarth chwarae.
- Ni ddylai creu ysgol ardal ar un neu ddau safle effeithio ar y Gymraeg.
- Mae opsiwn i rieni yn yr ardal ddewis darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y sector cynradd gan fod Ysgolion Cynradd Cyfrwng Cymraeg yn Sir y Fflint.

# Aseiad Effaith Iaith

Aseiad yr Iaith Gymraeg	1 Anghytuno'n Gryf / Gwaeth	2 Anghytuno / Ychydig yn Waeth	3 Ddim yn Anghytuno nac yn Cytuno / Dim Newid	4 Cytuno / Gwelliant Bach	5 Cytuno'n Gryf/ Gwelliant
Opsiwn 1 (Status Quo)			✓		
Opsiwn 2 (Ysgol Ardal ar 1 safle)			✓		
Opsiwn 3 (Ysgol Ardal ar 2 safle)			✓		

# Arfarnu'r Opsiynau ar gyfer Ardal Brynffordd, Licswm a Rhosesmor



Meinir Prawf Manteision nad dynt yn Ariannol	Pwysoli a Gytunwyd arno	Opsiw 1 Status Quo		Opsiw 2 Ysgol Ardal ar Un Safle*						Opsiw 3 Cadw Ysgol Rhos Helyg, Rhosesmor ac un Ysgol Ardal ar Un Safle*					
		Opsiw 1 Status Quo		Opsiw 2 2A1 – Opsiw Estyniad Ysgol Brynffordd		Opsiw 2 2A2 – Opsiw Adeilad Newydd Ysgol Brynffordd		Opsiw 2 2C - Rhos Helyg		Opsiw 3 3A1 – Opsiw Estyniad Ysgol Brynffordd		Opsiw 3 3A2 – Opsiw Adeilad Newydd Ysgol Brynffordd			
		Amr wd	Wedi'i Bwysoli	Amr wd	Wedi'i Bwysoli	Amr wd	Wedi'i Bwysoli	Amr wd	Wedi'i Bwysoli	Amr wd	Wedi'i Bwysoli	Amr wd	Wedi'i Bwysoli		
1 Adlewyrchu barn Plant a Phobl Ifanc	20	4	80	2	40	2	40	2	40	2	40	5	100	5	100
2 Gwerthusiad adeiladau'r ysgol	20	2	40	5	100	5	100	5	100	5	100	4	80	4	80
3 Cyfateb y galw am leoedd disgyblion a darparu'r rhain	20	3	60	5	100	5	100	5	100	5	100	3	60	3	60
4 Bydd disgyblion yn cyrraedd yr ysgol mewn amser teithio priodol	10	3	30	2	20	2	20	2	20	2	20	2	20	2	20
5 Ysgol ffocws cymunedol	10	3	30	2	20	2	20	2	20	2	20	2	20	2	20
6 Aseiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb	10	3	30	3	30	3	30	3	30	3	30	3	30	3	30
7 Aseiad Iaith Gymraeg	10	3	30	3	30	3	30	3	30	3	30	3	30	3	30
<b>CYFANSWM SGŌR OPSIW 1 (500 YW'R MWYAF SYDD AR GAEL)</b>		<b>300</b>		<b>340</b>		<b>340</b>		<b>340</b>		<b>340</b>		<b>340</b>		<b>340</b>	

\*Nid oes gan Ysgol Licswm y capasiti i ddarparu opsiwn 2 a 3.

1. Anghytuno'n gryf / Gwaeth; 2. Anghytuno / Ychydig yn waeth; 3. Ddim yn Anghytuno nac yn Cytuno/Dim Newid;
4. Cytuno / Gwelliant Bach; 5. Cytuno'n gryf/Gwelliant.

# Arfarnu'r Opsiynau ar gyfer Ardal Brynffordd, Licswm a Rhosesmor



Opsiwn	Opsiwn 1 Status Quo	Opsiwn 2 Ysgol Ardal ar un safle*			Opsiwn 3 Cadw Ysgol Rhos Helyg, Rhosesmor ac un Ysgol Ardal ar Un Safle*	
		2A1 – Opsiwn Estyniad Ysgol Brynffordd	2A2 – Opsiwn Adeilad Newydd Ysgol Brynffordd	2C - Rhos Helyg	3A1 – Opsiwn Estyniad Ysgol Brynffordd	3A2 – Opsiwn Adeilad Newydd Ysgol Brynffordd
<b>Amcangyfrif o Gostau Cludiant Ychwanegol (y diwrnod) (Sgôr)</b>	£900.00 <b>(3)</b>	£640 <b>(4)</b>	£640 <b>(4)</b>	£760 <b>(4)</b>	£805 <b>(4)</b>	£805 <b>(4)</b>
<b>Gwerthu Cost Bresennol (Sgôr)</b>	£25,630,767 <b>(2)</b>	£23,746,783 <b>(4)</b>	£24,081,819 <b>(3)</b>	£18,975,919 <b>(5)</b>	£23,571,064 <b>(4)</b>	£26,072,087 <b>(1)</b>
<b>Costau Cyfalaf Cychwynnol</b>	£4,040,892	£5,968,960	£6,217,675	£2,514,048	£3,959,089	£6,255,714
<b>Dyranriad Refeniw Ysgol</b> (gan gynnwys effaith NNDR sy'n gysylltiedig â Buddsoddi Cyfalaf)	£1,092,494	£899,596	£903,964	£833,006	£992,408	£1,002,751
<b>Arbedion refeniw (-) neu Refeniw Ychwanegol sydd ei Angen (+) (Sgôr)</b>	(£43,381) <b>(1)</b>	(£236,279) <b>(4)</b>	(£231,911) <b>(4)</b>	(£302,869) <b>(5)</b>	(£143,467) <b>(3)</b>	(£133,124) <b>(3)</b>
<b>Cost fesul Disgybl</b> (Ar hyn o bryd Brynffordd-£5,080 Licswm - £3,660 a Ysgol Rhos Helyg, Rhosesmor -£2,725)  <b>(Sgôr)</b>	Brynffordd £4,651 Licswm £3,389 Rhos Helyg £2,762 Cyfartaledd £3,600 <b>(1)</b>	£2,999 <b>(3)</b>	£3,013 <b>(2)</b>	£2,777 <b>(5)</b>	Ysgol Newydd £2,872 Rhos Helyg £2,725 Cyfartaledd £2,798 <b>(4)</b>	Ysgol Newydd £2,933 Rhos Helyg £2,725 Cyfartaledd £2,829 <b>(3)</b>
<b>CYFANSWM Y SGOR</b>	<b>7</b>	<b>15</b>	<b>13</b>	<b>19</b>	<b>15</b>	<b>11</b>
<b>SGOR CYFUNOL (Manteision Ariannol a Manteision nad ydynt yn Ariannol)</b>	<b>307</b>	<b>355</b>	<b>353</b>	<b>359</b>	<b>355</b>	<b>351</b>

\*Nid oes gan Ysgol Licswm y capasiti i ddarparu Opsiwn 2 a 3.

# Crynodeb o'r Canfyddiadau

Opsiynau dewisedig yn seiliedig ar feini prawf ariannol ac eraill:

## OPSIWN 2 (C)

Ysgol ardal ar safle  
Ysgol Rhos Helyg

## OPSIWN 2 (A1)

Ysgol ardal ar safle  
Brynffordd gydag  
estyniad


## OPSIWN 3 (A1)

Cadw Ysgol Rhos  
Helyg ac uno Ysgol  
Gynradd Licswm ac  
Ysgol Gynradd  
Brynffordd ar safle  
Brynffordd gydag  
estyniad

Nid oes lle yn Ysgol Gynradd Licswm ar gyfer Ysgol Ardal oherwydd maint y safle presennol. Gan hynny, nid yw Ysgol Gynradd Licswm wedi cael ei sgorio yn Opsiwn 2 a 3.

# Camau nesaf

- Bydd ymgynghoriad anffurfiol yn cael ei gynnal ar yr opsiynau gan ddechrau ar 1 Gorffennaf a gorffen ar 19 Awst 2016.
- Mae'r Cyngor am gael eich barn am yr opsiynau ar gyfer yr ardal.
- Caiff eich barn, ynghyd â'r holl Ddogfennau Arfarnu Effaith eu cyflwyno i Gabinet y Cyngor yn hydref 2016
- Bydd y Cabinet yn ystyried eich barn a'r dogfennau'n ofalus ac yn penderfynu pa opsiwn i'w weithredu o'r ardal.





# Gallwch roi'ch ymatebion...

- Yn y sesiynau galw heibio.
- Eu rhoi ym Mluch Postio Moderneiddio Ysgolion eich ysgol
- Llenwi holiadur ar-lein ar:  
<https://www.surveymonkey.co.uk/r/ASRLBR>
- Llenwi ffurflen ymateb a'i dychwelyd i'r Tîm Moderneiddio Ysgolion, Addysg ac Ieuenctid, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug, Sir y Fflint CH7 6ND; neu
- Fel arall rhowch eich ymatebion / cwestiynau yn ysgrifenedig i'r Tîm Moderneiddio Ysgolion, Addysg ac Ieuenctid, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug, Sir y Fflint, CH7 6ND neu e-bostiwch:  
[21stcenturyschools@flintshire.gov.uk](mailto:21stcenturyschools@flintshire.gov.uk)

**Am fwy o wybodaeth ewch i**

**[www.siryfflint.gov.uk/moderneiddioysgolion](http://www.siryfflint.gov.uk/moderneiddioysgolion)**